# Menter Gymhellion Croesi'r Bont



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Nod y prosiect hwn yw gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau er mwyn annog mwy o ymwelwyr i dreulio mwy o amser ac i wario mwy o arian yn yr ardaloedd y gallai cael gwared ar y tollau ar Bontydd Hafren effeithio arnynt. Mae'r masnachwyr a'r sefydliadau eu hunain yn gofyn inni fynd ati i hyrwyddo'r talebau a'r cymhellion y mae busnesau'n eu cynnig neu y byddant yn eu cynnig yn uniongyrchol i ymwelwyr â'r ardal, ar adeg pan fo neges gadarnhaol i'w chyfleu.

Mae'r prosiect hwn yn rhoi llwyfan cydweithredol i ymestyn y talebau a'r cymhellion hyn i farchnadoedd y cyrchfan, gan gefnogi'r busnesau/sefydliadau yn uniongyrchol.
Bydd cwmpas y cynhyrchion yn adlewyrchu'r arlwy, felly mae'n cwmpasu'r sector manwerthu (megis digwyddiadau bwyd stryd wythnosol), llety ac atyniadau. Bydd hyn yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o gyfleoedd i'r rheini sy'n ymweld am y tro cyntaf hyd yn oed, ac yn croesgyfeirio profiadau ymwelwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymweld yn amlach, neu'n treulio mwy o amser yn yr ardal.

**Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?**

Roedd y marchnadoedd targed i'r dwyrain o Bontydd Hafren ar hyd traffordd yr M4, yn Swydd Gaerloyw, Gwlad yr Haf, Bryste, Caerfaddon, ac ati, o fewn awr neu ddwy mewn car.
Crëwyd enw parth ar gyfer y Prosiect ynghyd â chyfres o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig.
Trefnwyd 13 o ymweliadau gan flogwyr.
Crëwyd cynnwys digidol newydd – 10 ffilm.
Cyflwynwyd ymgyrch hysbysebu fawr gan ddefnyddio Posteri ar hyd traffordd yr M4 ac mewn gorsafoedd gwasanaethau, yn ogystal â phostiadau ar y we y talwyd amdanynt.

**Pwy oedd yn rhan o'r prosiect?**

Mwy na 50 o fusnesau a sefydliadau twristiaeth lleol, gan gynnwys darparwyr llety, bwytai ac atyniadau, ynghyd â blogwyr ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a gwneuthurwyr ffilmiau. Timau Rheoli Cyrchfannau Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy.

**Gan bwy y cawsoch help a chyngor?**

Gwnaethom gydweithio ag ymgynghorydd ac ymgysylltu â phersonél Ymgysylltu Rhanbarthol Croeso Cymru.

**Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?**

Gwnaethom lwyddo i gyrraedd 161,003 o bobl drwy'r ymgyrchoedd ehangach ar Instagram a Facebook, sy'n nifer gwych. Mae'r cynnwys digidol newydd wedi hybu'r cyswllt â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Roedd masnachwyr yn ymwybodol o hyn, ac yn gwerthfawrogi'r ymgyrch yn y pen draw. Mae gennym gysylltiadau ffyddlon ar Facebook, a chodwyd proffil yr ardal gyfan yn sylweddol, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud pan oedd pobl yn meddwl am deithio ac am dirweddau awyr agored lleol yn arbennig.

**A'r her fwyaf?**

Uno'r ddwy ardal awdurdod lleol o dan faner newydd wedi'i brandio, a chreu tudalen lanio benodol ar gyfer yr ymgyrch. Sicrhau bod masnachwyr yn gwbl ymwybodol ac ymrwymedig, er gwaethaf y deunydd cyfathrebu a anfonwyd.

**Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg?**

Roedd y prosiect yn llwyddiannus iawn er gwaethaf pandemig COVID-19. Pe bawn yn sefydlu prosiect tebyg, byddwn yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf fod y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol o fudd amlwg i bob un o'r prif gyfranogwyr, ac yn cysylltu â nhw.

